



**EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD, SIR GAERFYRDDIN
2023**

Cystadleuaeth 90 – Deuawd Cerdd Dant 19 – 25 oed

Emyn Gwladgarol – Helen R Edwards
(copi ar gael o'r swyddfa trwy garedigrwydd Llen y Llannau 1998)

Cainc: Rhondda Fach – Kim Lloyd Jones (122) Curiad (7046)

Yr harddaf un o wledydd byd
Yw'r hon sydd inni'n drysor drud:
Diolchwn iti, Arglwydd Dduw,
Am gael y fraint o'i mewn i fyw.
O! Rho Dy fendith arni hi
A'i chadw'n deyrngar fyth i Ti.

Y decaf un o ieithoedd byd
Yw'r hon sydd inni'n drysor drud:
Diolchwn am ei hyfryd sain
Ac am bob un o'i geiriau cain.
O! Arglwydd Iôr, pâr iddi fod
Yn gyfrwng fyth i seinio clod.

Gad i ni gerdded yn Dy law
Er mwyn y cenedlaethau ddaw.
Wrth gydio eto yn Dy waith
Pâr i ni gofio ar ein taith
Mai D'eiddo Di yw'n trysor drud,
Yr harddaf un o wledydd byd.